# Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru

**Paratowyd gan y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru**

LBRO
Better Local Regulation

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



## Aelodau'r grŵp defnyddwyr arbenigol

- Jacqui Morgan Cyngor Sir Caerffili
- David Holland Cyngor Dinas Caerdydd
- Huw Williams Cyngor Sir Ceredigion
- Julie Barratt Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru
- Pauline Lloyd-Roberts/Lorna Thompson Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol
- Graham Perry Cyngor Sir Fynwy
- Mike Thomas Sefydliad Safonau Masnach Cymru
- Jane Shepherd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Laura Griffiths Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Richard Shearer Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Neil Jones Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Cyfranwyr

Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)
Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Iechyd Anifeiliaid
Llais Defnyddwyr Cymru
Safonau Masnach Cymru
Y Comisiwn Hapchwarae
Y Sefydliad Trwyddedu
Y Swyddfa Gartref
Y Swyddfa Masnachu Teg
Yr Adran dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru)
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

## Defnyddio data a thystiolaeth

Oni bai y nodir yn wahanol, mae data y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â gweithgarwch ac effaith gweithgarwch rheoleiddio lleol yng Nghymru. Lle nad oes data ar gael ar gyfer Cymru, darperir ffigurau priodol y DU. Mae'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rheoleiddwyr cenedlaethol i ddatblygu'r sail dystiolaeth ymhellach ac i fesur effaith gweithgarwch rheoleiddio yng Nghymru.





Mae gwaith rheoleiddio da yn hanfodol i ddiogelu dinasyddion a chymunedau a chefnogi twf menter a busnes yng Nghymru. Yn fwy nag erioed, dylai gwaith rheoleiddio ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd eu hangen ar bobl yng Nghymru - bwyd mwy diogel, cymunedau mwy diogel, gweithleoedd iachach a masnachu tecach.

Mae gwaith gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol - iechyd yr amgylchedd, safonau masnach, trwyddedu a diogelwch tân - yn cael effaith eang ar ein cymunedau lleol ac mae'n allweddol i gyflawni uchelgeisiau beiddgar Cymru'n Un. Mae gwaith rheoleiddio lleol yn dylanwadu ar bopeth o iechyd cyffredinol y gymuned drwy leihau nifer yr achosion o gamddefnyddio alcohol a diogelu defnyddwyr; i gefnogi economïau lleol wrth fynd i'r afael â materion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a thipio anghyfreithlon.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi'r gyfres gyntaf hon o flaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru, a baratowyd gan y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol ar y cyd ag awdurdodau lleol, rheoleiddwyr cenedlaethol a chyrff proffesiynol a chynrychiadol. Mae blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru yn rhoi cyfle pwysig i awdurdodau lleol a'u gwasanaethau rheoleiddio ddangos y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth sicrhau diogelwch a ffyniant i ddinasyddion a busnesau yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r pedair blaenoriaeth orfodi genedlaethol yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol Cymru'n Un - gwasanaethau cyhoeddus sy'n atebol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd. Eu nod yw mynd i'r afael â'r risgiau a'r bygythiadau ym maes rheoleiddio a wynebir gan ddinasyddion yng Nghymru. Maent yn gwneud hyn drwy nodi'r canlyniadau y mae awdurdodau lleol yn ceisio eu cyflawni, gan weithio gyda chynghorau, asiantaethau partner, dinasyddion a busnesau eraill. Er hynny, mae hynodrwydd cymunedau Cymru yn golygu y bydd amgylchiadau a blaenoriaethau lleol yn gofyn am wahanol ddulliau o weithredu mewn gwahanol ardaloedd. Bydd datrysiadau lleol ac arloesol, yn seiliedig ar wahaniaeth lleol, yn cyflawni'r canlyniadau hyn sy'n bwysig yn genedlaethol ac sy'n diwallu anghenion lleol.

Mae cyhoeddi'r gyfres gyntaf hon o flaenoriaethau gorfodi cenedlaethol yn garreg filltir bwysig. Fodd bynnag, dim ond y dechrau yw hyn. Gyda'n gilydd rhaid i ni barhau i weithio ar y cyd i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a sicrhau gwelliannau gwirioneddol i ansawdd bywyd pobl yng Nghymru.

### Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) a Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i'r grŵp defnyddwyr arbenigol a roddodd gyngor ar y broses adolygu, ac adrannau'r llywodraeth, asiantaethau a rheoleiddwyr cenedlaethol a ddarparodd dystiolaeth ategol. Hoffem hefyd ddiolch i'r rheini a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad ac mae'r sylwadau a gafwyd wedi llywio'r adroddiad terfynol hwn. Rydym hefyd yn diolch i Ann Hemingway, arweinydd Bwrdd LBRO Cymru a Kate Cross a arweiniodd yr adolygiad gyda chydweithwyr yn LBRO.

**Carwyn Jones AM**
**Prif Weinidog**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Clive Grace**
**Cadeirydd**
**Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol**

Ebrill 2010

# Cynnwys


**1.0 Crynodeb gweithredol**
1.1 Paratoi'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol
1.2 Adborth o'r ymgynghoriad
1.3 Y blaenoriaethau dethol
1.4 Ymgorffori'r blaenoriaethau
**2.0 Gwell rheoleiddio yng Nghymru: y cyd-destun ar gyfer blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol**
2.1 Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru
2.2 Egwyddorion gwell rheoleiddio
2.3 Rheoleiddio lleol yng Nghymru
2.4 Rôl y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol yng Nghymru
**3.0 Y blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol**
3.1 Blaenoriaeth 1: Diogelu unigolion rhag niwed a hybu gwella iechyd
3.2 Blaenoriaeth 2: Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid
3.3 Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau
3.4 Blaenoriaeth 4: Gwella'r amgylchedd lleol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd a hyrwyddo cynaliadwyedd
**4.0 Defnyddio'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol**
4.1 Rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau
Cyfeiriadau
Acronymau a ddefnyddiwyd

Cyfrol atodol: Crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd


## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â


Neil Jones, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Jones.neil@wales.gsi.gov.uk
029 2082 5716

Tîm Perfformiad a Llywodraethu
Yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays 1
Caerdydd, CF10 3NQ

Kate Cross, Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol
Kate.cross@lbro.org.uk
0121 226 4003

Local Better Regulation Office
The Axis
10 Holliday Street
Birmingham
B1 1TG




# 1.0 Crynodeb gweithredol

Mae gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol, sef safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, trwyddedu a diogelwch tân, yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddiogelu a chefnogi cymunedau lleol yng Nghymru, gan gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen ar bobl - bwyd mwy diogel, cymdogaethau glanach, gweithleoedd iachach a diogelu defnyddwyr. Mae effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol gweithgarwch rheoleiddio yn golygu bod gwasanaethau rheoleiddio yn ased hanfodol i gymunedau, dinasyddion a busnesau.

Mae cyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion wedi diffinio fwyfwy y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Drwy ganolbwyntio ar anghenion dinasyddion a busnesau, bydd gwasanaethau rheoleiddio yn cyfrannu at rai o'r agendâu polisi mwyaf heriol sy'n wynebu'r wlad, gan gynnwys cynhwysiant cymdeithasol, newid yn yr hinsawdd, ac adfywio economaidd. Caiff blaenoriaethau o'r fath eu cyfleu drwy agenda Cymru'n Un Llywodraeth Cynulliad Cymru[1] a'r Fframwaith Strategol[2], a gynhwysir yn y Rhaglen IDEAS (Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant). Maent hefyd yn bodloni gofyniad statudol Gweinidogion Cymru o dan Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006) i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, ac maent yn ffurfio un o brif egwyddorion trefniadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n annog cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i weithredu mewn ffyrdd tebyg.

## 1.1 Paratoi'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol

Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio, fel y'u cyflwynwyd gan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, yn disgrifio blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer cyflawni gwaith rheoleiddio lleol. Mae dyletswydd statudol[3] ar y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol i baratoi blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol drafft ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio i'w hystyried a'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae Adran 11 (b) o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i LBRO baratoi a chyhoeddi rhestr sy'n nodi'r materion hynny y dylai awdurdod lleol yng Nghymru roi blaenoriaeth iddynt wrth ddyrannu adnoddau i'w swyddogaethau perthnasol. O dan Adran 11 (2), rhaid i awdurdodau lleol ystyried y blaenoriaethau wrth ddyrannu adnoddau i'w swyddogaethau gwasanaethau rheoleiddio[4].

Mae'r Ddeddf yn cynnwys diffiniad o wasanaethau rheoleiddio - iechyd yr amgylchedd, safonau masnach, trwyddedu a diogelwch tân[5]- sy'n pennu cwmpas yr adolygiad hwn i sefydlu blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol. Mae cyfeiriadau at weithgarwch rheoleiddio yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y swyddogaethau hyn. Fodd bynnag, cydnabyddir fod gwaith rheoleiddio lleol yn cwmpasu ystod ehangach o wasanaethau, gan gynnwys rheoli gwaith cynllunio ac adeiladu sy'n rhan hanfodol o weithgarwch rheoleiddio lleol i ddiogelu dinasyddion a chefnogi busnesau.

Mae angen deall y term 'blaenoriaeth gorfodi' er mwyn adlewyrchu natur eang y gweithgareddau a gyflawnir gan wasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol er mwyn sicrhau diogelwch a ffyniant effeithiol, gan gynnwys cyngor a hyfforddiant a ddarperir i fusnesau; addysg a gwybodaeth i ddefnyddwyr; gwaith prosiect i gasglu gwybodaeth; camau gorfodi ar sail risg wedi'u targedu a chydweithio â phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae cyflawni canlyniadau gwell yn dibynnu ar ddyrannu adnoddau yn ofalus ar draws ystod o weithgareddau rheoleiddio, nid cymryd camau gorfodi traddodiadol yn unig.

Gellir cael canlyniadau gwell drwy ymgysylltu'n well â dinasyddion. Mae athroniaeth 'gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd' yn thema gyson yng nghytundeb Cymru'n Un ac mae'n ystyried pobl fel mwy na defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus; maent yn bartneriaid yn y gwaith o gyflawni canlyniadau gwell i'r gymuned gyfan. Mae'r model 'gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd', lle mae buddiolwyr gwasanaethau cyhoeddus yn allweddol yn y gwaith o ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau er mwyn gwella canlyniadau, yn ffactor hanfodol sy'n llywio'r gwaith o wella gwasanaethau yng Nghymru a chyflawni gwell rheoleiddio yn lleol.

## 1.2 Adborth o'r ymgynghoriad

Gweithiodd LBRO gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid allweddol i baratoi'r gyfres gyntaf hon o flaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori a oedd yn cyflwyno pedair blaenoriaeth orfodi genedlaethol ddrafft ar 1af Rhagfyr 2009 a pharodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos.

Roedd yr ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol dros ben o ran y blaenoriaethau arfaethedig a'u rôl yn y gwaith o wella canlyniadau i ddinasyddion a busnesau yng Nghymru. Croesawodd llawer o'r ymatebwyr ymagwedd y blaenoriaethau o ganolbwyntio ar ganlyniadau gan bwysleisio pa mor bwysig oedd cael dulliau cydweithredol o ddarparu gwasanaethau ledled Cymru. O ganlyniad i'r sylwadau a gafwyd, mae nifer o ddiwygiadau wedi'u gwneud i'r blaenoriaethau ac adlewyrchir y rhain yn yr adroddiad terfynol hwn. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb LBRO a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr adroddiad cryno ategol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn www.lbro.org.uk/ <http://cymru.gov.uk).

## 1.3 Y blaenoriaethau dethol

Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol a ddewiswyd i Gymru fel a ganlyn:

i. Diogelu unigolion rhag niwed a hybu gwella iechyd

ii. Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid

iii. Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau

iv. Gwella'r amgylchedd lleol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd a hyrwyddo cynaliadwyedd

Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol hyn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn adlewyrchu cyfraniad gwasanaethau rheoleiddio at flaenoriaethau cenedlaethol Cymru'n Un a'r Fframwaith Strategol; yn anelu at fynd i'r afael â risgiau rheoleiddio sy'n bodoli ym mhob rhan o'r wlad; ac yn hyrwyddo cydweithio i reoli risg a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Mae'r blaenoriaethau yn nodi canlyniadau y dylai gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol eu hystyried wrth gynllunio eu gwasanaethau a dyrannu adnoddau. Nid ydynt yn nodi'r gweithgareddau na'r adnoddau y dylai gwasanaethau rheoleiddio eu defnyddio i gyfrannau at y canlyniadau hyn. Caiff blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol eu cynllunio i bennu ffocws i weithgarwch rheoleiddio lleol a threfniadau cydweithio â sefydliadau partner sy'n diwallu anghenion cenedlaethol gan ddefnyddio datrysiadau lleol.

Amlinellir y dystiolaeth ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol yn Adran 3 ynghyd â chrynodeb o sut y gall gweithgareddau gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol gyflawni canlyniadau'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol. Gellir cael rhagor o wybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd i ategu'r blaenoriaethau mewn cyfrol atodol yn www.lbro.org.uk / http://cymru.gov.uk.

## 1.4 Ymgorffori'r blaenoriaethau

Mae gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu mewn amgylchedd newidiol a heriol, ac fe'u dylanwadir gan yr ysgogiad i wella gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ymhellach a'r ysgogiad i ddiwygio gwaith rheoleiddio yn lleol. Gwelir hyn yn ystod cyfnod o bwysau dirfawr ar gyllid cyhoeddus a galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus oherwydd y dirwasgiad economaidd byd-eang. Mae blaenoriaethu'n effeithiol a gwneud dewisiadau anodd yn wynebu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.

Mae'n bwysig nodi nad yw blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol yn tanseilio pwysigrwydd blaenoriaethau lleol. Caiff y blaenoriaethau cenedlaethol eu cynllunio i roi ffocws i weithgarwch rheoleiddio lleol a threfniadau cydweithio â sefydliadau partner, gan gyflawni canlyniadau cenedlaethol drwy gamau gweithredu lleol. Awdurdodau lleol a byrddau gwasanaethau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall materion sy'n wynebu cymunedau lleol ac ymateb iddynt. Bydd gwybodaeth a gesglir gan wasanaethau rheoleiddio drwy gynnal arolygon dinasyddion a busnesau, dadansoddi cwynion, dadansoddi risg ar lefel leol a chasglu barn aelodau etholedig lleol yn llywio blaenoriaethau lleol. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i lywio eu gweithgarwch o dan y blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol er mwyn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol.

Bydd ymgorffori'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ym maes darparu gwasanaethau yn ffocws allweddol i LBRO a Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y flwyddyn nesaf, gan weithio'n agos ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, rheoleiddwyr a phartneriaid cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried dulliau priodol o fesur cynnydd tuag at y canlyniadau a nodir yn y blaenoriaethau a darparu adnoddau ymarferol i gefnogi awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau hyn.



## Tabl 1:
## Trosolwg o'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru

| cenedlaethol ar gyfer Cymru Blaenoriaethau gorfodi | Gweithgarwch rheoleiddio a fydd yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol | Cysylltiad â chanlyniadau Cymru'n Un | Cysylltiadau â Fframwaith Strategol IDEAS | Partner cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Diogelu unigolion rhag niwed a hybu gwella iechydt | • Trwyddedu alcohol<br>• Gwella iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle<br>• Cyfyngu ar werthu dan oed<br>• Sicrhau safonau maeth<br>• Gwella safonau tai | Cymdeithas Deg a Chyfiawn<br>Dyfodol Iach | (SF01) Poblogaeth iach ag ansawdd bywyd da.<br>(SF09) Plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.<br>(SF17) Cymru ag enw da yn allanol. | Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru<br>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<br>Yr Heddlu<br>Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol - Cymru |
| Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid | • Cymeradwyo safleoedd gweithgynhyrchu bwyd<br>• Hylendid busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid<br>• Diogelwch ac iachusrwydd bwyd<br>• Iechyd a lles anifeiliaid fferm | Amgylchedd Cynaliadwy<br>Dyfodol Iach | (SF01) Poblogaeth iach ag ansawdd bywyd da.<br>(SF18) Gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, yn gwella'n barhaus ac yn werth am arian. | Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru<br>Iechyd Anifeiliaid<br>Llais Defnyddwyr Cymru |
| Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau | • Rheoleiddio credyd defnyddwyr a benthycwyr arian didrwydded<br>• Delio ag arferion masnachu annheg, gan gynnwys trosedd ar garreg y drws, sgamiau a masnachu drwg<br>• Goruchwylio a phrofi diogelwch cynhyrchion<br>• Arolygu offer pwyso a mesur<br>• Cefnogi busnesau drwy roi cyngor<br>• Grymuso defnyddwyr drwy addysg | Cymdeithas Deg a Chyfiawn<br>Cymdeithas sy'n Ffynnu | (SF11) Adfywio cymunedau ledled Cymru.<br>(SF10) Lleihau tlodi yng Nghymru.<br>(SF03) Mae ein heconomi yn gryf ac yn gynaliadwy ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth da.<br>(SF18) Gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, yn gwella'n barhaus ac yn werth am arian. | Y Swyddfa Masnachu Teg<br>Llais Defnyddwyr Cymru<br>Timau Benthyca Arian Anghyfreithlon<br>Scambusters<br>Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau<br>Y Swyddfa Eiddo Deallusol<br>Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Awdurdod Sylfaenol) |
| Gwella'r amgylchedd lleol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd a hyrwyddo cynaliadwyedd | • Rheoleiddio ansawdd amgylcheddol lleol<br>• Rheoli niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol<br>• Trwyddedu alcohol<br>• Safonau diogelwch tai<br>• Lleihau gwastraff<br>• Rheoli'r perygl o lifogydd a bygythiadau eraill a ddaw yn sgîl newid yn yr hinsawdd<br>• Rheoli ansawdd yr aer<br>• Symud a nodi iechyd anifeiliaid | Amgylchedd Cynaliadwy<br>Cymunedau Byw<br>Cymdeithas Deg a Chyfiawn | (SF12) Pobl yn byw mewn cymunedau gwledig a threfol diogel, bywiog a chynhwysol.<br>(SF11) Adfywio cymunedau ledled Cymru.<br>(SF 05) Pawb â mynediad i dai da.<br>(SF01) Poblogaeth iach ag ansawdd bywyd da.<br>(SF 13) Diogelir ein hamgylchedd hanesyddol naturiol a defnyddir unrhyw dir yn gynaliadwy<br>(SF 14) Mae Cymru yn gymdeithas ynni effeithlon, carbon isel, gwastraff isel. | Asiantaeth yr Amgylchedd<br>Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig<br>Wardeiniaid Stryd<br>Cadwch Gymru'n Daclus<br>Yr Heddlu<br>Grwpiau Cymunedol<br>Cymdeithasau Tai |

# 2.0
# Gwell rheoleiddio yng Nghymru: y cyd-destun ar gyfer blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol

Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol yn rhan o ddull ehangach o ddarparu gwell rheoleiddio er budd dinasyddion a busnesau ledled Cymru. Mae'r broses o weithredu polisïau gwell rheoleiddio yn cynnwys cymysgedd o gyfrifoldebau datganoledig ac annatganoledig ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio a'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol i hyrwyddo dull cyson o ddarparu gwell rheoleiddio ledled y DU, tra'n gweithredu o fewn cyd-destun unigryw polisi Cymru. Ymhlith yr elfennau unigryw mae'r egwyddor sylfaenol o roi dinasyddion yn gyntaf a chydnabod bod partneriaethau effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol yn allweddol i lwyddiant.

## 2.1 Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru

Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Datganiad Polisi 'Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru[6]. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r rôl y mae'r Llywodraeth yn disgwyl i waith arolygu, archwilio a rheoleiddio (y cyfeirir atynt ar y cyd fel "adolygiad allanol") ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau sy'n atebol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd ynghyd â strategaeth ar gyfer gwella gwasanaethau lleol yn barhaus. Mae'r datganiad polisi, ynghyd â'r egwyddorion ar gyfer gwell rheoleiddio, yn sail i ddull o orfodi a fabwysiedir gan reoleiddwyr sy'n seiliedig ar risg, yn gymesur ac wedi'i dargedu ynghyd â pherthynas newydd rhwng rheoleiddwyr a busnesau.

## 2.2 Egwyddorion gwell rheoleiddio

Mae pum egwyddor gwell rheoleiddio yn sail i ddull o orfodi a fabwysiedir gan reoleiddwyr sy'n seiliedig ar risg, yn gymesur ac wedi'i dargedu ynghyd â pherthynas newydd rhwng rheoleiddwyr a busnesau:

- Wedi'i dargedu – dylai adnoddau ganolbwyntio ar fentrau risg uwch, gan adlewyrchu angen lleol a blaenoriaethau cenedlaethol. Y nod yw sicrhau bod masnachwyr drwg yn cael eu nodi a bod busnesau sy'n cydymffurfio a defnyddwyr yn cael eu diogelu.
- Cymesur – dylai camau gorfodi adlewyrchu'r lefel o risg i'r cyhoedd a dylai cosbau fod yn gysylltiedig â difrifoldeb y drosedd[7]. Mae hyn yn cynyddu cydymffurfiaeth heb osod beichiau annheg ar fusnesau.
- Cyson – dylai cyngor i fusnesau fod yn ddibynadwy ac yn gadarn ac yn gymwys i rannau gwahanol o'r wlad. Lle mae amgylchiadau'n debyg, dylai awdurdodau weithredu mewn ffyrdd tebyg. Mae mynediad gwell i gyngor arbenigol ar faterion rheoleiddio y gall busnesau ymddiried ynddo yn rhoi mwy o hyder iddynt fuddsoddi a thyfu.
- Tryloyw – dylai busnesau allu deall yr hyn y mae rheoleiddwyr lleol yn ei ddisgwyl ganddynt a'r hyn y gallant ei ddisgwyl yn gyfnewid. Mae hyn yn ennyn ymddiriedaeth rhwng rheoleiddwyr a'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio, gan sicrhau mwy o effeithlonrwydd a gwell canlyniadau.
- Atebol – dylai gweithgareddau fod yn agored i graffu cyhoeddus, gyda pholisïau clir a hygyrch, a gweithdrefnau cwyno teg ac effeithlon. Mae hyn yn galluogi busnesau a chymunedau i lywio'r gwasanaethau a gânt.

Mae gwaith rheoleiddio effeithiol yn diogelu buddiannau'r cyhoedd ac yn sicrhau chwarae teg lle y gall busnesau ffynnu. Mae busnesau sy'n ffynnu yn creu strydoedd mawr bywiog ac yn cefnogi ffyniant ehangach dinasyddion drwy greu gwaith a buddsoddi. Gall gweithgarwch rheoleiddio sy'n targedu achosion risg uchel o ddiffyg cydymffurfio a diffyg cydymffurfio bwriadol ddiogelu busnesau sy'n cydymffurfio a chefnogi mentrau drwy ddileu unrhyw fantais gystadleuol a geir drwy fethu â chydymffurfio.

## 2.3 Gwaith rheoleiddio lleol yng Nghymru

Darperir gwasanaethau rheoleiddio safonau masnach, trwyddedu, iechyd yr amgylchedd a diogelwch tân gan y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru. Mae'r swyddogaethau a gyflawnir gan wasanaethau rheoleiddio yn cwmpasu materion datganoledig ac annatganoledig, fel y dangosir yn Ffigur 1 isod.

**Ffigur 1: Pwerau datganoli a phwerau a gadwyd yn ôl yng Nghymru sy'n effeithio ar wasanaethau rheoleiddio (ffynhonnell: Deddf Llywodraeth Cymru 2006)**

| Datganoledig | Cadwyd yn ôl |
|---|---|
| Amaethyddiaeth, a datblygu gwledig | Diogelu defnyddwyr[8] |
| Datblygu economaidd | Cyfraith sifil a throseddol |
| Yr amgylchedd | |
| Gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân | |
| Bwyd | |
| Iechyd a gwasanaethau iechyd | |
| Tai | |
| Llywodraeth Leol | |

Yn ogystal â gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol, mae nifer o gyrff yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth, rheoleiddio marchnadoedd neu fonitro safonau rheoleiddwyr cenedlaethol[9]. Mae i ba raddau y mae rheoleiddwyr cenedlaethol yn gorfodi deddfwriaeth ag awdurdodau lleol neu'n darparu canllawiau i awdurdodau lleol yn amrywio yn ôl pob rheoleiddiwr cenedlaethol. Rhestrir y prif reoleiddwyr cenedlaethol sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol yn y dirwedd hon yng Nghymru isod:

- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Iechyd Anifeiliaid
- Y Comisiwn Hapchwarae
- Y Swyddfa Eiddo Deallusol
- Y Swyddfa Fesur Wladol
- Y Swyddfa Masnachu Teg
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

## 2.4 Rôl y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol yng Nghymru

Sefydlwyd LBRO o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau 2008 er mwyn llywio'r agenda diwygio rheoleiddio ehangach yn lleol. Cenhadaeth LBRO yw sicrhau y darperir gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol yn effeithiol yn unol ag egwyddorion gwell rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys cefnogi gwelliant gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol, lleihau beichiau rheoleiddio diangen ar fusnesau a sicrhau ffyniant economaidd a diogelu'r gymuned. Er mwyn cyflawni newid, mae gan LBRO amrywiaeth o bwerau statudol sy'n gymwys ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys datblygu partneriaethau ffurfiol â rheoleiddwyr cenedlaethol, rhoi cyngor i Weinidogion ar waith rheoleiddio lleol a gweithredu cynllun yr Awdurdod Sylfaenol. Gan weithio gyda phartneriaid, mae LBRO yn ceisio lleihau achosion o ddyblygu a chymhlethdod yn y system reoleiddiol drwy ddatblygu ymagweddau cyffredin tuag at risg, cymhwysedd a rhannu data. Mae LBRO hefyd yn gweithio i hyrwyddo datrysiadau i fynd i'r afael â risgiau cenedlaethol drwy waith rheoleiddio lleol.

Mae LBRO a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i raglen uchelgeisiol o waith i gynnwys gwell rheoleiddio lleol ledled Cymru a chyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo arloesedd ac arfer da, annog dulliau cydweithredol o weithredu drwy sefydlu Fforwm Rheoleiddwyr a gwella cymorth i fusnesau drwy'r Awdurdod Sylfaenol. Bydd sefydlu'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol, a gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, rheoleiddwyr a phartneriaid cenedlaethol i nodi dulliau priodol o fesur cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn nodwedd allweddol o raglen waith LBRO a Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y flwyddyn nesaf.





# 3.0
# Y blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol

Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol a ddewiswyd i Gymru fel a ganlyn:

i. Diogelu unigolion rhag niwed a hybu gwella iechyd

ii. Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid

iii. Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau

iv. Gwella'r amgylchedd lleol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd a hyrwyddo cynaliadwyedd

Amlinellir yr achos dros bob un o'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol isod ynghyd â chrynodeb o sut y gall gweithgareddau gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol gyflawni canlyniadau'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol. Rhoddir ystyriaeth lawn i Gymru'n Un a'r fframwaith strategol, y risgiau rheoleiddio sy'n bodoli ledled y wlad, a'r angen i hyrwyddo cydweithredu. Gellir cael rhagor o wybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd i ategu pob un o'r blaenoriaethau mewn cyfrol atodol yn www.lbro.org.uk / http://cymru.gov.uk.

## 3.1 Blaenoriaeth 1: Diogelu unigolion rhag niwed a hybu gwella iechyd

Mae Cymru'n Un yn pwysleisio'r ymrwymiad a rennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y sector iechyd a llywodraeth leol i sicrhau gwelliannau sylweddol o ran iechyd pawb yng Nghymru a gwella lles grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau difreintiedig. O gymharu â gwledydd eraill y DU, Cymru sydd â'r ganran uchaf o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn, a'r achosion mwyaf cyffredin o farwolaeth yng Nghymru yw clefydau cylchrediad y gwaed a'r system anadlu a chanser[10], gyda diet, ffordd o fyw a salwch sy'n gysylltiedig â gwaith yn cyfrannu at y cyflyrau hyn.

- Yng Nghymru, mae dros hanner yr oedolion dros bwysau, gydag un o bob pum oedolyn yn ordew. Hefyd, mae nifer fwy o blant dros bwysau yng Nghymru nac yng ngweddill y DU[11], gan wneud problemau yn ymwneud â deiet gwael yn bryder i'r wlad.
- Priodolir dros 1,000 o farwolaethau'r flwyddyn i alcohol ac mae 6,000 o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn digwydd bob bl wyddyn yng Nghymru.
- Mae gan Gymru gyfraddau uwch o blant yn defnyddio tybaco ac alcohol na phriod gyfraddau yng ngweddill y DU.
- Amcangyfrifir bod camddefnyddio alcohol yn costio tua £1.18 biliwn y flwyddyn i economi Cymru ac amcangyfrifir bod y gost i'r GIG £70-85 miliwn y flwyddyn yng Nghymru[12].
- Yn 2007/2008, collwyd cyfanswm o 1.9 miliwn o ddiwrnodau gwaith; roedd 1.7 miliwn o'r rhain oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â gwaith ac roedd 0.3 miliwn oherwydd anaf yn y gweithle[13]. Roedd meddygon teulu yn fwy tebygol o weld pobl yn dioddef o straen sy'n gysylltiedig â gwaith, anhwylderau cyhyrysgerbydol, clefyd croen neu glefyd anadlu nag unrhyw reswm arall.
- Mae safonau tai yn effeithio ar iechyd, diogelwch a lles unigolion. Nodwyd 4,501 o beryglon i breswylwyr mewn anheddau yn ystod 2007-08. Y mathau mwyaf cyffredin oedd ei bod yn rhy oer a llaith a bod llwydni'n tyfu. Mewn tai amlfeddiannaeth ledled Cymru, tân oedd y perygl mwyaf cyffredin[14].

Mae gan wasanaethau rheoleiddio gyfraniad pwysig ac unigryw i'w wneud i ddiogelu a gwella iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy eu cyfrifoldebau o ran lleihau argaeledd alcohol, tybaco a chynhyrchion eraill sydd â chyfyngiad oedran, gan hyrwyddo dewisiadau hyddysg i ddefnyddwyr am fwyd a maeth a sicrhau iechyd, diogelwch a lles unigolion yn y gwaith a gartref.

Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau gwelliannau o ran iechyd y wlad yn fater cymhleth a heriol a dim ond drwy ymdrech gydweithredol sy'n canolbwyntio ar anghenion dinasyddion y gellir mynd i'r afael ag ef. Bydd hyn yn cynnwys partneriaid lleol a gwasanaethau awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Lleol, a phartneriaid cenedlaethol sy'n cynnwys Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru.

## 3.2 Blaenoriaeth 2: Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid

Mae'r diwydiant ffermio yn rhan allweddol o dirwedd, economi a threftadaeth Cymru. Nod rheoleiddio yw diogelu iechyd a lles anifeiliaid fferm a lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid drwy atal afiechydon rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Mae effaith salwch a gludir gan fwyd wedi cael ei hamlygu gan yr achosion o E coli O157, yn enwedig yr hyn a ddigwyddodd yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 a achoswyd gan gig wedi'i goginio halogedig, a gyflenwyd gan gigydd lleol. Bu farw plentyn ysgol oherwydd y digwyddiad hwn, aeth sawl un arall i'r ysbyty, a chafodd effaith anferth ar drigolion lleol.

- Mae gan Gymru gyfran fawr o ffermydd bach o gymharu â gweddill Prydain Fawr, gan fagu ychydig dros 25% a 10% o ddefaid a gwartheg y DU[15] yn y drefn honno. Mae gan Gymru ddwysedd stocio uchel gyda nifer fawr o anifeiliaid yn cael eu symud. Yn 2008-2009, roedd 24,157 o safleoedd wedi'u hasesu am risg (iechyd a lles anifeiliaid) ledled Cymru ac yn 2009-2010, nodwyd 432 o reolfannau allweddol[16].
- Mae Adroddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r achosion o E coli O157 yn Ne Cymru yn amlygu'r rôl hanfodol y mae defnyddio rheolaethau swyddogol yn effeithiol, gan gynnwys gweithgareddau gwasanaethau rheoliadol awdurdodau lleol, yn ei chwarae o ran atal salwch a gludir gan fwyd[17].
- Amcangyfrifir bod 925,767 o achosion o afiechyd a gludir gan fwyd yn y DU yn 2007, ac o'r achosion hyn, bu farw 443 o bobl ac aeth 18,300 i'r ysbyty[18].
- Mynegodd 69% o ddinasyddion a holwyd yn y DU bryderon ynghylch diogelwch bwyd a dywed 57% o ddefnyddwyr eu bod yn pryderu am wenwyn bwyd.
- Amcangyfrifwyd bod y costau sy'n gysylltiedig ag afiechydon a gludir gan fwyd oherwydd colli cynhyrchiant, costau gofal iechyd a niwed i fusnes, yn cyfateb i £1.4 biliwn bob blwyddyn yn y DU. Nid yw hyn yn cynnwys costau digwyddiadau mawr, fel clwy'r traed a'r genau ac amcangyfrifir bod cyfanswm cost clwy'r traed a'r genau rhwng 2001 a 2004 yn £4.7 biliwn[19].
- Mae camau gorfodi bwyd yn bwysig iawn i fusnesau bach. Mewn astudiaeth ymchwil o ddulliau gorfodi effeithiol ar gyfer diogelwch bwyd mewn busnesau bach a chanolig, nododd y mwyafrif o fusnesau eu bod yn dibynnu ar arolygiadau awdurdodau lleol i'w gwneud yn ymwybodol o ofynion cyfreithiol[20].

Mae cynhyrchu bwyd a'i fwyta'n ddiogel yn flaenoriaeth allweddol i Gymru, gan effeithio ar iechyd y wlad yn ogystal â chefnogi'r economi wledig. Mae gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn gweithgarwch rheoleiddio drwy'r gadwyn fwyd, o'r fferm i'r fforc. Mae rheolaethau iechyd a lles anifeiliaid yn atal afiechyd rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Mae afiechyd a gludir gan fwyd, gan gynnwys E coli, yn peri risg uchel i iechyd pobl gyda'r tebygolrwydd o amlygiad i afiechyd o'r fath yn uchel hefyd.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y labeli cywir ar gynhyrchion bwyd, bod cynhyrchion bwyd yn cyrraedd y safonau cyfansoddiadol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a bod y bwyd a gynhyrchir ac a ddefnyddir yng Nghymru yn ddiogel i'w fwyta, i'w ddefnyddio ac y bydd yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd.

Dangosodd yr Adroddiad ar yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r achosion o E coli fod angen ymgysylltu, cyfathrebu a chydgysylltu'n well â'r sefydliadau a'r rhanddeiliaid gwahanol niferus sy'n cyflawni gwaith rheoleiddio lleol, ac sy'n destun y gwaith hwnnw.

Gan adlewyrchu'r cyfrifoldebau a rennir a nodir yng Nghytundeb Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, mae awdurdodau lleol yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Iechyd Anifeiliaid a LACoRS i hyrwyddo rheolaethau iechyd a lles anifeiliaid effeithiol a chyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd i sicrhau gwaith rheoleiddio gwell a gwaith gorfodi effeithiol a darparu adnoddau addysgol i leihau salwch a gludir gan fwyd.

## 3.3 Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau

Mae traddodiad balch Cymru o Chwarae Teg yn tanategu'r weledigaeth o Gymru deg a chyfiawn, lle y caiff pob dinesydd ei rymuso i benderfynu ar ei fywyd ei hun, yn enwedig drwy gynorthwyo unigolion sy'n agored i niwed ac unigolion difreintiedig. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod gan dros hanner yr oedolion yng Nghymru sgiliau rhifedd gwael[21]. Gall lefelau isel o lythrennedd a rhifedd ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr wneud dewisiadau hyddysg a chael chwarae deg. Mae amgylchedd masnachu teg a chyfiawn hefyd yn cefnogi'r uchelgais i greu cymdeithas ffyniannus ac ysgogi menter drwy sicrhau bod busnesau sy'n cydymffurfio a gaiff eu rhedeg yn dda yn gallu ffynnu ac nad yw busnesau drwg yn mwynhau mantais gystadleuol annheg. Mae dros 98% o fusnesau yng Nghymru yn fusnesau bach[22] ac mae 32% o fusnesau yng Nghymru yn fusnesau micro[23], sy'n uwch na ffigur y DU, sef 30%. Mae'r cyswllt rhwng swyddogion gwasanaethau rheoleiddio yn gyfle allweddol i roi'r cyngor a'r canllawiau wedi'u teilwra y mae busnesau am eu cael. Mae hyn yn bwysig iawn i fusnesau micro a busnesau bach a chanolig.

- Yng Nghymru, mae cyfran y problemau sy'n gysylltiedig â chredyd defnyddwyr a ddaw i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth wedi cynyddu 56% ers 1998 (o gymharu â chynnydd o 47% ledled Prydain ar y cyfan), a chleientiaid dyledion Cyngor ar Bopeth Cymru sydd â'r gymhareb uchaf o ran dyled i incwm yn y DU (Cymru = 16.2; cyfartaledd y DU = 13.9)[24].
- Bob blwyddyn, mae traean o oedolion Prydain yn profi o leiaf un broblem defnyddwyr hysbys sy'n golygu colled ariannol ac, yn ôl pob sôn, a achosir gan fasnachwr yn eu trin yn annheg. Gyda'i gilydd, maent yn profi dros 26 miliwn o broblemau a gwerth £6.6 biliwn o golled[25].
- Gall benthycwyr arian didrwydded godi llog rhwng 500% ac 11,000,000% ar fenthyciadau a £40 miliwn y flwyddyn yw cyfanswm yr arian a fenthycir gan fenthycwyr arian anghyfreithlon yn y DU[26]. Mae'r tîm benthyca arian yn anghyfreithlon yng Nghymru wedi cael bron i 60 o gyfeiriadau am fenthycwyr arian didrwydded yn gweithredu yng Nghymru ac mae wedi dod o hyd i lyfrau benthyciadau gwerth cyfanswm o £1.5 miliwn.
- Mae gwaith diogelu defnyddwyr awdurdodau lleol yn arbed o leiaf £347 miliwn y flwyddyn i ddefnyddwyr y DU. Sicrheir dwy ran o dair o'r arbedion hyn drwy fynd i'r afael ag arferion masnachu annheg; a thraean drwy roi cyngor a chymorth i ddefnyddwyr. Am bob £1 y mae awdurdodau lleol yn ei gwario ar waith diogelu defnyddwyr, maent yn arbed o leiaf £6[27] i ddefnyddwyr yn uniongyrchol.
- Mae gwaith ymchwil yn ystod 2007-8 wedi dangos bod e-drosedd, gan gynnwys dwyn eiddo deallusol, wedi costio dros £280 miliwn mewn gwerthiannau a chynhyrchiant a gollwyd i fusnesau yng Nghymru[28]. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ddigwyddiadau hysbys a'r rhai a gofnodwyd yn unig.
- Canfuir nad yw tua 10% o nwyddau defnyddwyr a fewnforir yn ddiogel neu fod arnynt y labeli anghywir. Dengys data fod y risgiau sy'n codi o gynhyrchion nad ydynt yn ddiogel yn cynnwys tagu, sioc drydanol, llindagu, tân a llosgi, mygu ac anafiadau i unigolion[29]. Yn y DU, mae 31% o anafiadau a gofnodir yn y cartref, gyda llawer yn cynnwys nwyddau nad ydynt yn ddiogel neu nwyddau diffygiol, yn digwydd i blant o dan 15 oed ac mae 21% yn effeithio ar oedolion dros 65 oed[30]. £155 miliwn y flwyddyn yw gwerth yr effaith negyddol ar ddefnyddwyr, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn y DU oherwydd nwyddau nad ydynt yn ddiogel a fewnforir.
- Amcangyfrifir bod gwerth tua £188 miliwn o nwyddau'r cartref yn cael eu gwerthu y flwyddyn ar sail mesur eu nifer. Mae nwyddau a brynir ac a werthir ar fesur yn arbennig o bwysig i gartrefi tlotach yn y DU, gan gyfrif am bron i draean o gyfanswm eu gwariant wythnosol[31].

Nod gwaith diogelu defnyddwyr awdurdodau lleol yw sicrhau na chaiff defnyddwyr eu twyllo ynghylch natur nac ansawdd nwyddau neu wasanaethau, ac nad ydynt yn agored i dactegau gwerthu diegwyddor neu werthu dan bwysau. Mewn rhai sectorau, mae hanes o fasnachu drwg gan ddefnyddio dulliau gwerthu dan bwysau uchel a thargedu defnyddwyr sy'n agored i niwed. Mae awdurdodau lleol yn darparu diogelwch defnyddwyr a chymorth i fusnesau drwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys darparu addysg ac ymwybyddiaeth i ddefnyddwyr, sefydlu cynlluniau achredu masnachwyr, rhoi cyngor a chanllawiau wedi'u teilwra i fusnesau, casglu gwybodaeth a chymryd camau gorfodi wedi'u targedu a chamau gorfodi yn seiliedig ar risg i fynd i'r afael â masnachwyr ac arferion masnachu drwg.

Mae timau rhanbarthol arbenigol, gan gynnwys Scambusters, y tîm Benthyca Arian yn Anghyfreithlon a gwybodaeth ranbarthol, yn targedu masnachwyr drwg, gan weithio'n agos ag awdurdodau lleol yng Nghymru, y Swyddfa Masnachu Teg a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau.



## 3.4 Blaenoriaeth 4: Gwella'r amgylchedd lleol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd a hyrwyddo cynaliadwyedd

Mae gan Gymru amgylchedd hanesyddol ac amrywiol mewn ardaloedd gwledig a threfol y mae angen ei ddiogelu a'i wella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Caiff yr amgylchedd lleol effaith uniongyrchol ar ansawdd bywyd cymunedau a dinasyddion, gan gynnwys eu hiechyd a'u lles. Hefyd, caiff ansawdd amgylcheddol gwael, gan gynnwys yr hyn a geir mewn trefi, yng nghefn gwlad ac ar draethau, effaith niweidiol ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru - yn uniongyrchol, mae twristiaeth yn cyfrannu 3.2% o werth economi gyfan a ychwanegir yng Nghymru[32].

- Mae ansawdd amgylcheddol gwael ymhlith y materion mwyaf cyffredin a godwyd gan drigolion lleol yn yr arolwg Byw yng Nghymru[33].
- Cred dros chwarter y boblogaeth yng Nghymru fod ymddygiad meddw neu swnllyd yn broblem fawr neu'n broblem eithaf mawr yn eu hardal a dywed 29% o bobl ifanc rhwng 12 a 17 oed yn y DU iddynt ymddwyn yn wrthgymdeithasol ar ôl yfed[34].
- Roedd 55,300 o achosion o dipio anghyfreithlon ledled Cymru yn 2008-2009 a chost amcangyfrifedig clirio gwastraff a adawyd yn anghyfreithlon a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yn 2008-2009 oedd £2.94 miliwn[35].
- Amcangyfrifir bod 480 miliwn o fagiau plastig untro yn cael eu defnyddio yng Nghymru bob blwyddyn ar hyn o bryd a gall pob bag plastig gymryd rhwng 500 a 1000 o flynyddoedd i bydru, gan effeithio ar gynaliadwyedd amgylcheddol. Hefyd, amcangyfrifwyd ei bod yn costio £1 filiwn bob blwyddyn i awdurdodau lleol yng Nghymru lanhau ysbwriel bagiau plastig.
- Mae 220,000 o eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd gan afonydd neu'r môr. Amcangyfrifwyd mai £200 miliwn oedd y risg economaidd flynyddol bosibl i eiddo preswyl ac eiddo busnes a'u cynnwys ym mis Ebrill 2008. Amcangyfrifir bod asedau Cymru sydd mewn perygl o lifogydd, gan gynnwys seilwaith masnachol, diwydiannol ac allweddol, yn werth dros £8 biliwn[36].
- Amcangyfrifir bod llygredd aer yn costio hyd at £20.2 biliwn y flwyddyn mewn costau iechyd ledled y DU[37].
- Mae awdurdodau lleol Cymru yn gyfrifol am asesu amodau meddiannaeth mewn eiddo preswyl yn y sector preifat a'r sector cymdeithasol. Yng Nghymru, cafodd 99 o anheddau eu dymchwel neu eu cau yn ystod 2007-08, mwy na dwbl ffigur 2006-07. Nodwyd 4,501 o beryglon i breswylwyr mewn anheddau yn ystod 2007-08. Y mathau mwyaf cyffredin oedd ei bod yn rhy oer a llaith a bod llwydni'n tyfu. Mewn tai amlfeddiannaeth ledled Cymru, tân oedd y perygl mwyaf cyffredin[38].

Mae gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol yn sicrhau gwelliannau mewn ansawdd amgylcheddol o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd a deddfwriaethau allweddol eraill. Cymerodd awdurdodau lleol Cymru 20,400 o gamau gorfodi o ran tipio anghyfreithlon yn unig yn 2008-2009. Mae awdurdodau lleol Cymru hefyd yn gyfrifol am asesu amodau preswylio mewn eiddo preswyl yn y sector preifat a'r sector cymdeithasol. Mae'r Ddeddf Trwyddedu yn gosod dyletswydd ar wasanaethau rheoleiddio lleol i atal trosedd, anhrefn a niwsans cyhoeddus a hyrwyddo diogelwch cyhoeddus drwy amodau trwyddedu lleol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi bod cynaliadwyedd amgylcheddol ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth allweddol i weithredu arni. Mae hon yn agenda sy'n tyfu ac mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan weithredol. Mae gan wasanaethau rheoleiddio rôl i'w chwarae o ran lleihau'r effaith hon drwy ganolbwyntio ar leihau gwastraff, llifogydd a bygythiadau eraill sydd ar ddod.

Rhennir y gwaith o ddiogelu'r amgylchedd ac ansawdd amgylcheddol rhwng awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am faterion ansawdd amgylcheddol lleol, sef Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n gyfrifol am waith rheoleiddio a gwelliannau amgylcheddol, a Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n darparu cyllid, polisïau a sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwelliannau. Yn lleol, mae gwasanaethau rheoleiddio yn gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau eraill awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau tai, gwasanaethau cymdeithasol a wardeiniaid stryd, a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo cymdogaethau glân, gwyrdd a diogel.



# 4.0
# Defnyddio'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol

Mae gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu mewn amgylchedd newidiol a heriol a chânt eu dylanwadu gan yr ysgogiad i wella gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ymhellach a'r ysgogiad i ddiwygio gwaith rheoleiddio yn lleol. Digwydd hyn yn ystod cyfnod o bwysau dirfawr ar gyllid cyhoeddus a galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus oherwydd y dirwasgiad economaidd byd-eang. Mae blaenoriaethu'n effeithiol a gwneud dewisiadau anodd yn wynebu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.

Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio yn disgrifio blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes rheoleiddio lleol ac yn amlygu'r cyfraniad cadarnhaol y gall gwasanaethau rheoleiddio lleol, ynghyd â phartneriaid lleol a chenedlaethol, ei wneud i gyflawni canlyniadau gwell sy'n bwysig i ddinasyddion yng Nghymru. Mae cyflwyno blaenoriaethau cenedlaethol yn ategu ffocws cynyddol ar risg.  Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol yn mynd i'r afael â risgiau rheoleiddio ledled Cymru y gall gwasanaethau a phartneriaid rheoleiddio helpu i'w rheoli. Daw tystiolaeth o'r risgiau sy'n wynebu'r wlad gan adrannau'r llywodraeth, rheoleiddwyr cenedlaethol, awdurdodau lleol a barn dinasyddion a busnesau. Dim ond drwy i awdurdodau lleol ffurfio amddiffyniad a sicrhau bod rheolaethau rheoleiddio ar waith ym mhob ardal y gellir rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol.

Dim ond y cam cyntaf i sefydlu dull o reoleiddio sy'n seiliedig ar risg yw cyhoeddi'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol, ac mae'n angenrheidiol barhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau'r blaenoriaethau hyn drwy ddyrannu adnoddau, datblygu cynlluniau gwasanaethau a chyflawni ar lefel leol. Mae LBRO a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i weithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rheoleiddwyr cenedlaethol ac adrannau'r llywodraeth er mwyn canolbwyntio ar gyflawni cynnydd amlwg yn erbyn y blaenoriaethau. Mae hyn yn rhan o ddull cyfannol o gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau rheoleiddio, lle mae blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol yn chwarae rôl annatod.

## 4.1 Rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau

Nodir cyd-destun ehangach y broses o wella gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio yn Fframwaith Rhagoriaeth[39] gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol y cytunwyd arno. Mae'r fframwaith yn adeiladu ar waith ym mhob rhan o'r sector llywodraeth leol dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu hunanasesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid fel ffordd o wella gwasanaethau. Mae'r Fframwaith Rhagoriaeth yn seiliedig ar egwyddorion, yn hytrach na bod yn rhagnodol, a'i nod yw grymuso awdurdodau lleol i fod yn gyfrifol am eu perfformiad. Mae'n annog gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gydymffurfio gan eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfraniad at ganlyniadau sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn lleol a gaiff ei gyfleu drwy'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol a'r Cytundebau Cyflenwi Lleol yng Nghymru.

Mae pedair thema'r Fframwaith Rhagoriaeth yn cwmpasu arweinyddiaeth a strategaeth, canolbwyntio ar y cwsmer, rheoli adnoddau a chyflawni canlyniadau cynaliadwy. Fel datganiad cyffredinol nodweddion gwasanaeth rheoleiddio awdurdodau lleol sy'n perfformio'n dda, bwriedir i'r fframwaith lywio ansawdd o ran darparu gwasanaethau gan awdurdodau lleol ac fel y cyfeirbwynt i reoleiddwyr cenedlaethol ac adrannau llywodraeth ganolog.

Lansiwyd y fframwaith yng Nghymru ym mis Mawrth 2010 gan nodi carreg filltir bwysig o gytundeb a rennir ymhlith rheoleiddwyr lleol a chenedlaethol a ffordd o hyrwyddo'r newid mewn diwylliant sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n sicrhau ffyniant a diogelwch.

## 4.2 Mesur canlyniadau ac effaith gweithgarwch rheoleiddio

Mae effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol bosibl gweithgarwch rheoleiddio yn golygu bod gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol yn rhan amhrisiadwy o ddatrysiadau lleol. Fodd bynnag, yn draddodiadol, ychydig iawn o sylw a gaiff gwasanaethau rheoleiddio a gallant fod â phroffil isel wrth bennu blaenoriaethau. Gall hyn ddeillio o'r ffaith bod prinder gwybodaeth systematig am ganlyniadau ac effeithiau gweithgareddau rheoleiddio a'i bod yn aml yn anodd mesur, profi a dangos y cyfraniadau cadarnhaol y maent yn eu gwneud yn lleol. Yn erbyn cefndir o gyfrifoldeb cynyddol o ran awdurdodau lleol a thynhau cyllidebau lleol, mae angen i wasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol fod yn gynyddol barod i fesur eu heffaith ar randdeiliaid a dangos bod eu gweithgareddau yn creu budd a chanlyniadau i fusnesau lleol a'r cymunedau.


Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol yn nodi canlyniadau y dylai holl wasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol eu hystyried wrth gynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau. Nid ydynt yn nodi'r gweithgareddau na'r adnoddau y dylai gwasanaethau rheoleiddio eu defnyddio i gyfrannu at y canlyniadau hyn. Awdurdodau lleol a byrddau gwasanaethau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall materion sy'n wynebu cymunedau lleol ac ymateb iddynt. Bydd gwybodaeth a gesglir gan wasanaethau rheoleiddio drwy arolygon dinasyddion a busnesau, dadansoddi cwynion, dadansoddi risg yn lleol a chasglu barn aelodau etholedig lleol yn llywio blaenoriaethau lleol. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i lywio eu gweithgarwch o dan y blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol er mwyn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol.

Er mwyn helpu awdurdodau lleol i nodi'r gweithgareddau rheoleiddio a fydd yn cyflawni'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ac yn diwallu anghenion eu cymunedau lleol, mae LBRO wedi cyhoeddi canllaw cam wrth gam ar lunio dangosyddion ystyrlon i asesu canlyniadau ac effaith gweithrediadau. Mae'r pecyn cymorth hwn yn pennu proses o feithrin sail dystiolaeth gadarn i fesur manteision gweithgareddau i fusnesau lleol a defnyddwyr. Mae ar gael ar wefan LBRO yn www.lbro.org.uk ynghyd ag adnoddau ategol. Dangosir un enghraifft o'r llwybrau a ddefnyddiwyd i nodi'r cysylltiadau rhwng adnoddau a chanlyniadau yn Ffigur 2.

Bydd LBRO a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gynnig hyfforddiant i awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r adnodd ac yn parhau i weithio gyda grŵp defnyddwyr arbenigol y blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol i ystyried ffyrdd priodol o fesur cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau.



## Ffigur 2:
## Cynrychiolaeth syml o ganlyniadau ac effeithiau gweithgarwch rheoleiddio o ran tybaco




**Allwedd**



# Cyfeiriadau

[1] Mae Cymru'n Un, y cytundeb rhwng Plaid Lafur Cymru a Plaid Cymru, yn pennu'r agenda i lywodraeth Cymru drawsffurfio Cymru yn wlad a chymdeithas hunanhyderus, lwyddiannus ac iach sy'n deg i bawb.

[2] Mae'r Fframwaith Strategol yn nodi'r canlyniadau strategol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu cyflawni. Mae'n rhan o'r rhaglen Gwybodaeth i Gyflawni Rhagoriaeth, Atebolrwydd a Llwyddiant (IDEAS), sef proses newydd o reoli perfformiad. Mae'n galluogi Llywodraeth y Cynulliad i olrhain gwariant a pherfformiad, gan arwain at wneud gwell penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

[3] Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, adran 11 (1)

[4] Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, adran 11 (1)

[5] Diffinnir gwasanaethau rheoleiddio at ddibenion blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol yn Atodlen 3, Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008.

[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Datganiad Polisi Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru ar gael yn http://wales.gov.uk/consultations/improving/inspectionaudit/?lang=cy

[7] Mae Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 yn darparu ar gyfer defnyddio amrywiaeth ehangach o sancsiynau 'Macrory' wrth i reoleiddwyr brofi eu gallu i ddilyn egwyddorion gwell rheoleiddio. Mae pob un o ddarpariaethau'r Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau yn gymwys i Gymru.

[8] Caiff y mwyafrif o ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr ei chadw.

[9] Sefydlir y rhain yn amrywiol fel asiantaethau gweithredol, cyrff cyhoeddus anadrannol, adrannau'r llywodraeth ac adrannau anweinidogol y llywodraeth.

[10] Ystadegau Iechyd Cymru 2009, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/health2009/?lang=cy

[11] Ystadegau Iechyd Cymru 2009, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/health2009/?lang=cy

[12] Dyfynnwyd y wybodaeth gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn tystiolaeth a gyflwynwyd.

[13] Darparwyd y data gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Ffigurau wedi'u talgrynnu)

[14] Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru, Ystadegau Tai Cymru 2008, ar gael yn http://www.dataunitwales.gov.uk/Documents/Publications/lgd02010_Welsh_Housing_Statistics_2008_v2_cym.pdf

[15] Iechyd Anifeiliaid, a nodir yn y Cytundeb Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid

[16] Oherwydd newid proffil yn 2009-2010, mae'r rheolfannau allweddol yn cynnwys marchnadoedd, porthladdoedd, delwyr, lladd-dai a sioeau. Darparwyd y data gan Iechyd Anifeiliaid.

[17] Yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o E. Coli O157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 (Crynodeb Cymraeg), ar gael yn http://cymru.gov.uk/ecoliinquiry/report/?lang=cy

[18] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Food Borne Disease Burden / Severity Data 2007

[19] Blake, Thea Sinclair a Sugiyarto, The economy-wide effects of foot and mouth disease in the UK economy, Prifysgol Nottingham, 2001, dyfynnwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru)

[20] Darparwyd y wybodaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru)

[21] Gwybodaeth o http://www.literacytrust.org.uk/policy/Wales.html#adults

[22] Dyfynnwyd y wybodaeth gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn http://www.fsb.org.uk/policy/rpu/wales/images/FSB%20Quango%20Merger%20Response.pdf

[23] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Dadansoddiad Maint o Fusnesau Cymru, 2006, ar gael yn www.cymru.gov.uk/statistics

[24] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adolygiad Dirprwy Weinidogion o Orddyled yng Nghymru 2005, ar gael yn http://www.new.cymru.gov.uk/topics/housingandcommunity/regeneration/publications/overindebtedness;jsessionid=XLW8KvCQmlj2Jy7FhgX0XKGB6WyhmqTTCYsSkG7zvgMfnrRZvvyp!-973246136?cr=7&lang=cy

[25] Swyddfa Masnachu Teg Consumer Detriment – Assessing the Frequency and Impact of Consumer Problems with Goods and Services, Ebrill 2008. Mae bron un o bob pum problem yn golygu colledion o fwy na £100 ac maent yn cyfrif am 97% o'r golled.

[26] Darparwyd y wybodaeth gan y gyfarwyddiaeth Polisi Defnyddwyr a Chystadleuaeth, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

[27] Swyddfa Masnachu Teg, Trading Standards Impact : An Evaluation of the Impact of the Fair Trading Work of Local Authority Trading Standards Services in the UK, Mehefin 2009

[28] Data gan e-drosedd Cymru, ar gael yn http://www.ecrimewales.com/server.php?show=nav.8859 (Ffigurau diweddaraf)

[29] Ystadegau RAPEX, adroddiad mis Ionawr i fis Hydref 2009

[30] Adroddiad Blynyddol HASS a LASS 2002, ar gael yn http://www.hassandlass.org.uk/query/reports.htm

[31] R. Lambert (Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau) a P. Temple (Prifysgol Surrey, The Economics of Weights and Measures in the UK, ar gael yn http://www.nmo.bis.gov.uk/documents/economicanalysisfinalreport.doc

[32] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ystadegau twristiaeth 2002, ar gael yn http://cymru.gov.uk/topics/tourism/research/fastfacts/?lang=cy

[33] Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru, People taking action to improve the environment: issues of most concern, ar gael yn http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer?tableView.aspx?ReportId=5306

[34] Y Swyddfa Gartref, Offending Crime and Justice Survey 2005, ar gael yn http://www.homeoffice.gov.uk/rds/offending_survey.html

[35] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tipio anghyfreithlon yng Nghymru 2008-2009, Hydref 2009, a gasglwyd gan ddefnyddio data gan Flycapture. Flycapture yw'r gronfa ddata genedlaethol o achosion o dipio anghyfreithlon a chamau gorfodi a sefydlwyd gan DEFRA, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol i gofnodi'r achosion a chost gwastraff a adewir yn anghyfreithlon y mae awdurdodau lleol yn ymdrin ag ef. Mae'r data hwn yn gysylltiedig â gweithgarwch gan awdurdodau lleol Cymru.

[36] Darparwyd y data gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

[37] Darparwyd y data gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

[38] Uned Ddata Llywodraeth Leol - Cymru, Ystadegau Tai Cymru 2008, ar gael yn http://www.dataunitwales.gov.uk/Documents/Publications/lgd02010_Welsh_Housing_Statistics_2008_v2_cym.pdf

[39] Mae'r Fframwaith Rhagoriaeth yn adeiladu ar waith y sector llywodraeth leol dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu hunanasesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid fel ffordd o wella gwasanaethau. Yn erbyn y cefndir hwn aeth LBRO, ar ran y Glymblaid dros well rheoleiddio lleol gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, ati i feithrin consensws ymhlith rheoleiddwyr lleol a chenedlaethol ar nodweddion gwasanaethau rheoleiddio da o fewn awdurdodau lleol. Cydnabyddwyd y dylid gwneud hyn drwy bartneriaeth a fodolai eisoes rhwng LACoRS, LBRO, CIEH, TSI a'r Awdurdodau Disglair, Cyngor Dinas Coventry a Chyngor Dinas Westminster o fewn y prosiect Her Cymheiriaid Gwasanaethau Rheoleiddio i lunio a threialu'r fframwaith a'r asesiad gydag awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr. Mae'r fframwaith ar gael yn http://www.lbro.org.uk/docs/lars-excellence-framework.pdf